Medi 2023

# LLYWODRAETH CYMRU

# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)** |
| **Y swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig - enw(au) ac enw'r tîm):** | **Sarah Wymer**<br><br>**Yr Is-adran Etholiadau** |
| **Adran:** | **Y Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol** |
| **Pennaeth yr Is-adran/yr Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Michael Kay** |
| **Yr Ysgrifennydd / Gweinidog** | **Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**<br><br>**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol** |

| | |
|---|---|
| **Cabinet sy'n gyfrifol:** | |
| **Dyddiad Dechrau:** | **Hydref 2023** |

## CONTENTS

ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM? ......................... 4

Adran 8. Casgliad........................................................................................................................ 7

ADRAN 9. Datganiad ................................................................................................................. 11

## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Bydd y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ("y Bil") yn helpu i gyflawni cynigion i foderneiddio gweinyddu etholiadol ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau lleol yng Nghymru ("etholiadau Cymreig") fel y'u nodir yn y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022. Bydd yn helpu i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio etholiadau llywodraeth leol er mwyn lleihau'r diffyg democrataidd.

Bydd y Bil yn darparu ar gyfer cynyddu cyfranogiad mewn etholiadau Cymreig a gwella hygyrchedd i bobl anabl,  ei gwneud yn ofynnol i gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig yn amodol ar beilota llwyddiannus, cryfhau'r drosedd o ddylanwad gormodol a sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol i gryfhau gweinyddu etholiadol. Bydd y Bil hefyd yn darparu ar gyfer diwygio'r prosesau ar gyfer cynnal adolygiadau etholiadol ac adolygiadau cymunedol o ardaloedd lleol, diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a rhoi'r swyddogaethau yr arferai'r Panel eu gwneud o ran cydnabyddiaeth ariannol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Mae ein pecyn diwygio etholiadol yn gyrru ein huchelgais hirdymor o gynyddu cyfranogiad pleidleiswyr a sicrhau bod pob dinesydd yn gallu chwarae ei ran lawn yn ein democratiaeth. Mae ein polisïau yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd yn y bumed Senedd pan gafodd yr etholfraint ei hestyn i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor cymwys yng Nghymru, ac ar y gwaith o roi cyfres o gynlluniau etholiadau arloesol ar waith yn etholiadau lleol mis Mai 2022 drwy brofi ffyrdd o wella cyfranogiad yn y broses etholiadol.

Cafodd y datblygiadau polisi cychwynnol eu llywio gan y cyflawniadau a amlinellwyd uchod a'n fframwaith ar gyfer diwygio etholiadol a gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2021. Wrth wraidd y fframwaith mae'r chwe egwyddor ar gyfer diwygio etholiadol a ddefnyddir i feincnodi ein cynigion – tegwch, hygyrchedd, cyfranogiad, gwella profiad dinasyddion, symlrwydd ac uniondeb. Datblygwyd y polisi ymhellach drwy raglen weithredol a pharhaus o ymgysylltu â rhanddeiliaid etholiadol, a thrwyddynt, a hefyd drwy ymgynghori'n ffurfiol ar y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol ("y Papur Gwyn") o fis Hydref 2022 tan fis Ionawr 2023.

### 1.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae cyfatebiaeth glir rhwng y Bil a'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### 1.2  Hirdymor

Mae'r Bil yn gam arall yn ein huchelgais hirdymor ar gyfer diwygio etholiadol, gan adeiladu ar waith a gyflawnwyd yn y Senedd ddiwethaf. Bydd llawer o ddarpariaethau'r Bil, ynghyd â chynigion eraill yn y Papur Gwyn a gyflawnir drwy ddulliau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol

eraill, ar waith ar gyfer y set nesaf o etholiadau Cymreig yn 2026 a 2027. Mae angen gwneud rhagor o waith ar rai darpariaethau eraill ac maent yn fwy tebygol o gael eu hystyried yn y Senedd nesaf. Ymysg ein huchelgeisiau ar gyfer y tymor hwy mae:

- Cydgrynhoi'r gyfraith etholiadol (gan gynnwys ailddatgan yr etholfraint) mewn un ddeddf ddwyieithog.
- Diweddaru etholfraint dinasyddion yr UE i adlewyrchu eu statws ar ôl ymadawiad y DU â'r UE.
- Rhoi'r etholfraint i rai carcharorion yng Nghymru.
- Hyblygrwydd i alluogi pobl i bleidleisio ar wahanol adegau ac mewn gwahanol leoliadau.
- Pleidleisio electronig.

**1.3 Atal**

Bydd y Bil yn hybu cydlyniant cymunedol a chymdeithasol drwy alluogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn democratiaeth, fel pleidleiswyr ac fel ymgeiswyr ar gyfer swyddi etholiadol. Drwy gryfhau iechyd democrataidd, byddwn yn helpu i leihau'r diffyg democrataidd a lleihau anghydraddoldeb mewn cyfranogiad democrataidd. Drwy gryfhau trefn gweinyddu etholiadau, byddwn yn helpu i sicrhau dulliau cadarn ar gyfer eu cynnal yn y dyfodol.

**1.4 Integreiddio**

Bydd y Bil a'r pecyn diwygio ehangach yn helpu i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio etholiadau llywodraeth leol er mwyn lleihau'r diffyg democrataidd. Bydd yn helpu hefyd i wneud gwelliannau i etholiadau'r Senedd. Datblygwyd y Bil ochr yn ochr â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) er mwyn sicrhau bod darpariaethau'r ddau fil yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd.

Bydd y Bil yn helpu i sicrhau Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol drwy ddarpariaethau sy'n ei gwneud yn haws cofrestru i bleidleisio ac yn haws pleidleisio, yn gwella hygyrchedd i bleidleiswyr anabl ac yn gwella amrywiaeth yn y Senedd ac mewn llywodraeth leol.

**1.5 Cydweithio**

Rydym wedi gweithio'n agos ar draws y Llywodraeth a chyda'r gymuned etholiadol gan gynnwys awdurdodau lleol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, y Comisiwn Etholiadol, llywodraethau eraill y DU a sefydliadau'r trydydd sector i ddatblygu ein cynigion ar gyfer diwygio etholiadol.

**1.6 Cynnwys**

Ers i etholiadau Cymreig gael eu datganoli drwy Ddeddf Cymru 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi trafod nifer o opsiynau ar gyfer cyflawni diwygio etholiadol ac wedi ymgynghori arnynt. Yn ystod y bumed Senedd, cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol ar Ddiwygio Etholiadol mewn

Llywodraeth Leol yng Nghymru rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2017. Cyfrannodd hyn at Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a oedd yn estyn yr etholfraint etholiadol i bobl ifanc 16 ac 17 oed ac i ddinasyddion tramor cymwys sy'n preswylio'n gyfreithlon yng Nghymru.

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad fframwaith o ddiwygiadau etholiadol a chynhaliwyd peilotau arloesi etholiadol yn etholiadau llywodraeth leol 2022. Ym mis Hydref 2022, drwy ein Papur Gwyn, ymgynghorwyd ar gyfres o gynigion sylweddol i ddiwygio a moderneiddio etholiadau a threfn gweinyddu etholiadau yng Nghymru. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall o'r Papur Gwyn, ynghyd â fersiwn addas i bobl ifanc a fersiwn yn Iaith Arwyddion Prydain, a chynhaliwyd yr ymgynghoriad am 12 wythnos. Cyhoeddwyd adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad, ac mewn Datganiad Llafar i'r Cyfarfod Llawn ym mis Mai 2023 cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol ei fwriad i ddeddfu ar ddiwygio etholiadol. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod cefnogaeth gyffredinol i'r uchelgeisiau a nodwyd yn ein Papur Gwyn a byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid drwy gydol tymor y Senedd hon i gyflawni'r gwaith diwygio hwnnw.

**1.7 Effaith**

Bydd y Bil yn cyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio etholiadau llywodraeth leol er mwyn lleihau'r diffyg democrataidd. Mae'n cefnogi nod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol o sicrhau Cymru fwy cyfartal, a bydd yn helpu i wneud democratiaeth a phleidleisio yn fwy hygyrch i bob aelod o gymdeithas ac yn annog pobl i gymryd rhan weithredol ym mywyd democrataidd Cymru. Bydd ein diwygiadau yn helpu pobl i fod yn ddinasyddion sy'n ymwneud yn agosach â democratiaeth, ac o'r herwydd byddant yn fwy abl i gyfrannu at y gwaith o sicrhau canlyniadau economaidd-gymdeithasol gwell.

**1.8 Costau ac Arbedion**

Nodwyd amcangyfrif o'r costau a'r arbedion yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a gyhoeddwyd gyda'r Papur Gwyn ac a gaiff ei gyhoeddi ar ei ffurf derfynol gyda'r Bil.

**1.9 Mecanwaith**

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth, os oes angen deddfwriaeth sylfaenol, i gyflawni cynigion a nodir yn y Papur Gwyn. Os nad oes angen deddfwriaeth sylfaenol, bydd cynigion yn cael eu cyflwyno drwy ddulliau deddfwriaethol neu weinyddol sy'n bodoli'n barod.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Ers 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar amrywiaeth o opsiynau ar gyfer diwygio etholiadol yng Nghymru, gan gynnwys drwy ddau Bapur Gwyn ar ddiwygio etholiadol yn 2017 a 2022. Mae darpariaethau'r Bil hwn wedi'u llywio a'u siapio gan ein gwaith ymgynghori a thrwy ymgysylltu cyson â rhanddeiliaid drwy weithgorau sefydledig ar etholiadau, yn ogystal ag ymgysylltu â grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb mewn polisïau penodol.

Cyhoeddwyd ein hymgynghoriad diweddaraf ym mis Hydref 2022 a chyhoeddwyd fersiwn i bobl ifanc, fersiwn hawdd ei darllen a fersiwn yn Iaith Arwyddion Prydain ochr yn ochr â'r brif ddogfen. Yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol, cynhaliwyd deg o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau, Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, i ofyn am farn rhanddeiliaid ac i roi prawf ymarferol ar y cynigion ymgynghori. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i’n cynigion gan y rhai a ymatebodd. Roedd y pryderon mwyaf cyffredin a godwyd yn ymwneud â gwerth am arian, capasiti awdurdodau lleol i gyflawni, a'r angen i reoli’n ofalus y gwahaniaethau rhwng etholiadau Cymreig ac etholiadau a gedwir yn ôl.

Wrth inni baratoi ar gyfer gweithredu’r cynigion, byddwn yn parhau i gwrdd yn rheolaidd â'r rhanddeiliaid yr effeithir arnynt fwyaf gan y Bil a bydd eu cyfraniad gwerthfawr, a'n helpodd i lunio'r cynigion, yn ein helpu hefyd i ddatblygu ein polisïau ac i baratoi ar gyfer y gweithredu.

### 8.2 Beth yw’r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

**Pobl a Chymunedau**

Bydd y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau drwy fesurau sy'n ei gwneud yn haws pleidleisio ac yn galluogi dinasyddion i chwarae eu rhan lawn yn ein democratiaeth, ynghyd â mesurau sydd â'r nod o gynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr ar gyfer swyddi etholedig. Wrth lunio'r Bil, rydym wedi cael ein harwain gan y chwe egwyddor ar gyfer diwygio etholiadol sy'n adlewyrchu sut y mae system etholiadol gadarn yn rhan o'n hymdrechion i wella canlyniadau i bawb gan gynnwys Nodau Cenedlaethol Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Hawliau Plant**

Bydd mesurau i wella cyfranogiad yn y broses etholiadol yn cael effaith gadarnhaol ar hawliau plant, gan adeiladu ar y cam o estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed yn y Senedd ddiwethaf. Bydd ein polisïau yn helpu i feithrin mwy o ddiddordeb a dealltwriaeth o ddemocratiaeth, gan ei gwneud yn haws pleidleisio mewn etholiadau Cymreig. Drwy ein polisïau, bydd pobl ifanc yn cael y cyfle i ddweud wrth aelodau etholedig beth ddylai ddigwydd yn eu barn nhw a bydd eu barn a'u diddordebau yn cael eu hystyried a'u hawliau'n cael eu parchu, eu diogelu a'u bodloni.

**Cydraddoldeb**

Bydd holl bobl Cymru yn elwa ar y Bil. Mae cydraddoldeb yn rhan o'n fframwaith ar gyfer diwygio etholiadol a ddefnyddiwyd i feincnodi ein cynigion drwy egwyddorion tegwch, hygyrchedd, cyfranogiad a gwella profiad dinasyddion. Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Rydym yn defnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd i gynllunio ein polisïau.

**Prawfesur Gwledig**

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau arwyddocaol ar ardaloedd gwledig.

**Preifatrwydd**

Rydym wedi nodi'r effeithiau o ran preifatrwydd sy'n deillio o'r darpariaethau yn ymwneud â chofrestru heb wneud cais a monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ymgeiswyr sy'n ceisio cael eu hethol i brif gynghorau a chynghorau tref a chymuned. Bydd Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn cael eu cwblhau lle bo angen wrth lunio'r is-ddeddfwriaeth.

**Y Gymraeg**

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau arwyddocaol ar y Gymraeg. Mae canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn nodi'n glir bod rhaid iddynt roi sylw i Ddeddf y Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau yng Nghymru gael eu darparu'n gyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd darparu mwy o wasanaethau etholiadol yn Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Wrth inni ddatblygu a gweithredu ein cynigion ar gyfer diwygio etholiadol, byddwn yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg, y Comisiwn Etholiadol a'r Bwrdd Rheoli Etholiadol newydd i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Llesiant economaidd**

Mae effeithiau, costau a manteision economaidd y Bil wedi'u cyhoeddi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Busnesau, y cyhoedd ac unigolion**

Bydd effaith gadarnhaol ar unigolion drwy fesurau i wella hygyrchedd ac i'w gwneud yn haws pleidleisio mewn etholiadau Cymreig, gan gryfhau'r drosedd o ddylanwad gormodol, a thrwy fesurau amrywiaeth i gefnogi'r rhai sy'n sefyll am swydd etholedig. Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau ar fusnesau.

**Y Sector Cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill**

Bydd effeithiau arwyddocaol i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynnal etholiadau. Rydym yn ymwybodol o'u pryderon am gostau, am eu capasiti ac am yr angen i reoli'n ofalus y gwahaniaethau rhwng etholiadau Cymreig a rhai a gedwir yn ôl.  Bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol newydd yn cael effaith gadarnhaol ar lywodraeth leol wrth i etholiadau gael eu cydgysylltu'n well. At hynny, bydd mwy o gydweithio rhwng partneriaid allweddol a bydd gweinyddwyr yn cael cymorth gan gymheiriaid a chyngor ymarferol ar weithredu canllawiau a deddfwriaeth. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w helpu i roi'r newidiadau hyn ar waith a byddwn yn darparu gwybodaeth i helpu pleidleiswyr i ddeall y drefn cofrestru a phleidleisio ar gyfer pob math o etholiad.

Bydd effaith ar Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a fydd yn cael ei ddiddymu, ac ar Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, a fydd yn ymgymryd â swyddogaethau newydd. Bydd y Comisiwn Etholiadol yn ysgwyddo rhai cyfrifoldebau bach ychwanegol. Byddwn yn gweithio gyda'r holl gyrff i sicrhau trosglwyddo esmwyth i'r trefniadau newydd.

**Cyfiawnder**

Rydym wedi asesu na chaiff y Bil effaith o gwbl ar y system gyfiawnder neu mai effaith fach iawn a gaiff arni. Mae'n cyflwyno un drosedd newydd ac yn diwygio trosedd sy'n bodoli eisoes. Mae trosedd newydd o dorri rheolau cyllid ymgyrchu wedi'i chreu fel rhan o ddarpariaethau newydd a fydd yn rheoleiddio'r modd y gall trydydd partïon fynd i wariant rheoledig yn ystod cyfnod rheoleiddiedig ar gyfer etholiadau Senedd annibynnol. Newidiwyd y diffiniad o'r drosedd etholiadol Dylanwad Gormodol ar gyfer etholiadau Cymreig. Mae'r ddwy drosedd yn efelychu troseddau a gyflwynwyd yn Neddf Etholiadau 2022. Cwblhawyd Asesiad statudol o'r Effaith ar Gyfiawnder ac ymgynghorwyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**Asesiadau effaith penodol**

Cwblhawyd yr asesiadau effaith penodol canlynol:

- Hawliau Plant
- Cydraddoldeb
- Y Gymraeg
- Asesiad Effaith Economaidd / Rheoleiddiol
- Cyfiawnder

Mae'r Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg a’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u cyhoeddi a gellir darparu'r lleill os gwneir cais amdanynt.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau’r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a’r saith nod llesiant; a / neu**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae cyfatebiaeth glir rhwng y Bil a’r pum ffordd o weithio yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein dull gweithredu wedi'i amlinellu yn adran 1. Wrth ddatblygu ein cynigion, rydym wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r saith nod llesiant. Rydym wedi nodi y bydd y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawni nodau'r Ddeddf o greu Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i nodi effeithiau negyddol posibl ac i gytuno ar gamau i liniaru’r effeithiau.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a’i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Wrth inni baratoi ar gyfer gweithredu, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gytuno sut y caiff yr effeithiau eu monitro a'u gwerthuso, gan gynnwys amseru a methodoleg ar gyfer yr adolygiad ar ôl gweithredu. Bydd tystiolaeth a ddarperir yn adroddiadau statudol y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau, a gyhoeddir o fewn chwe mis i etholiadau Cymreig 2026 a 2027, yn rhan allweddol o'r dull o fynd ati i fonitro a gwerthuso.

# ADRAN 9. DATGANIAD

**Datganiad**

Rwy'n fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi'i hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol / y Dirprwy Gyfarwyddwr:

Michael Kay

Yr Is-adran Etholiadau

Adran:

Y Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol

Dyddiad:…………………………

05/09/2023